| YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | Ymddiriedolaeth Llawn |
| **Dyddiad:** | 23 Ebrill 2013 |
| **Teitl yr Adroddiad:** | Placiau Cydnabod Cyfraniad |
| **Adroddiad gan:** | Ysgrifennydd yr Ymddiriedolaeth |
| **Swyddog Cyswllt:** | Carol Snowden (Cymhorthydd Gweinyddol) |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Gofyn i aelodau'r Ymddiriedolaeth ystyried cyflwyno placiau i gydnabod cyfraniad y corff yn ariannol i brosiectau mudiadau a chyrff gwirfoddol ar yr Ynys sy'n derbyn grant ganddo |
| **Argymhelliad:** | Gofynnir i aelodau'r Ymddiriedolaeth ystyried cynnwys yr adroddiad a phenderfynu ar yr argymhellion i fabwysiadu trefn o gyflwyno placiau cydnabod. |

**PLACIAU CYDNABOD**

1. Yn unol â'r gweithdrefnau a'r amodau a fabwysiadwyd ganddo, mae Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn yn gwahodd ceisiadau'n flynyddol gan fudiadau a chyrff gwirfoddol led led yr Ynys am gyfraniad ariannol tuag at eu gweithgareddau. Bydd cyfraniad yr Ymddiriedolaeth fel arfer yn symiau ariannol hyd at £6,000 y tro o fewn canllawiau arbennig sydd wedi eu gosod gan aelodau'r Ymddiriedolaeth, a'r arian sydd ar gael yn y gronfa benodol i'r pwrpas. Rhestrir isod enghreifftiau o'r math o geisiadau i dderbyn cymeradwyaeth yn y cyfnod diweddar:

   - Canolfan Gymuned a Chyn-filwyr Benllech (£950)
   - Castle Players Beaumaris (£6,000)
   - Geidiau Caergybi (£3,588)
   - Cae Chwarae Thomas Close Beaumaris (£3,855)
   - Clwb Peldroed Bro Goronwy (£1,798)
   - Cymdeithas Cae Chwarae Rhosmeirch (£6,000)
   - Canolfan Cymuned Rhosybol (£6,000)
   - Canolfan Esceifiog Gaerwen (£6,000)

Gwelir o'r rhestr uchod fod grantiau'r Ymddiriedolaeth yn aml yn gyfraniad tuag at atgyweirio neu wella gwedd adeiladau a ddefnyddir i bwrpas cymunedol gan gyrff gwirfoddol, yn ogystal â chymorth i brynu dodrefn neu adfer i hyrwyddo'r gweithgareddau. Yn fynych bydd cost y prosiect yn fwy o gryn dipyn na'r grant a dderbynnir gan yr Ymddiriedolaeth a bydd asiantaethau eraill yn cyfrannu at y gost. Tra bod yr asiantaethau rheini'n aml yn mynnu fod eu cyfraniad yn cael ei gydnabod yn weladwy (er enghraifft ar blac ar wal yr ystafell gymunedol neu ar y dodrefnyn) nid oes unrhyw beth i gydnabod cyfraniad Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn, er mai'r corff hwn yn aml yw'r prif gyfrannwr, ac ym marn swyddogion yr Ymddiriedolaeth nid oes digon yn cael ei wneud i roi cyhoeddusrwydd i'r Ymddiriedolaeth a'r cyfraniad ariannol a wneir ganddo at wahanol weithgareddau sy'n derbyn grant.

3. Awgrymir y gallai'r Ymddiriedolaeth gyflwyno plac syml i nodi cyfraniad tuag at y prosiect lle bo modd i hynny fod yn weladwy, ac y dylid trefnu cyfarfod i'w gyflwyno gan naill ai Gadeirydd neu aelod lleol o'r Ymddiriedolaeth a chyhoeddi hynny. Amcangyfrifir y byddai cost placiau o'r fath tua £35 yr un ac mai'r uchafswm tebygol o gost mewn unrhyw un flwyddyn fyddai £420. Ar achlysuron prin pan yw'r Ymddiriedolaeth wedi cyfrannu at brosiect sylweddol (hynny yw gweithgaredd sy'n derbyn mwy na £50,000 o gyfraniad) yna gellid darparu plac cydnabod mwy sylweddol ei faint a'i gost i'w gytuno rhwng y Cadeirydd, Is-gadeirydd a'r swyddogion.

4. **ARGYMHELLION**

Argymhellir fod aelodau'r Ymddiriedolaeth yn cymeradwyo:

i) Yr egwyddor o ddarparu placiau cydnabod cyfraniad ariannol gan yr Ymddiriedolaeth I brosiect lleol;

ii) Fod yr Ymddiriedolaeth yn neilltuo swm o hyd at £500 yn flynyddol ar gyfer y pwrpas i'w adnabod o'r gronfa grantiau i fudiadau a chymdeithasau lleol;

iii) Fod trefniadau'n cael eu gwneud gan y swyddogion o'r Cadeirydd neu'r aelod lleol gyflwyno'r plac i'r mudiad perthnasol i gyd-fynd â throsglwyddo'r grant i gefnogi'r prosiect.